CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Pecyn Cais - Uwch Swyddog Polisi Cyhoeddus

0.8CALI (28 awr yr wythnos)	Cyfnod penodol: Blwyddyn o'r penodiad	Gradd D: £33,662 – £39,559 (pro rata)

Rydym yn chwilio am Uwch Swyddog Polisi Cyhoeddus profiadol i gydlynu ein gwaith cyngor polisi a materion cyhoeddus - gan gyfrannu at gyflawni un o'n pedair prif flaenoriaeth strategol: “Cyfrannu at ddatrysiadau polisi mawr drwy gynnig cyngor annibynnol a galluogi cyfnewid gwybodaeth”. Rydym yn chwilio am rywun sydd â'r brwdfrydedd i ysgogi ein Cymrodyr anhygoel a'n rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod ein gwaith yn effeithiol.

Bydd deiliad y rôl hefyd yn gyfrifol am ddarpariaeth Gymraeg a gwaith dwyieithog y Gymdeithas.

Dyma gyfle cyffrous i rywun sydd eisiau cyfuno gwaith hyblyg â rôl ddiddorol ac amrywiol mewn tîm deinamig. Rydym yn bwriadu cyflogi ar sail cyfnod penodol o flwyddyn (i ddechrau), ac ar sail 0.8CALI, ond yn barod i ystyried rhannu'r swydd.

Mae rhuglder yn y Gymraeg yn ofynnol ar gyfer y swydd hon.

Ynglŷn â Chymdeithas Ddysgedig Cymru

Ni yw Academi Genedlaethol Cymru ar gyfer y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Ein diben elusennol yw hyrwyddo gwybodaeth, a grym ymchwil ac arloesi er budd economi a chymdeithas Cymru. Mae ein Cymrodyr, a ddewisir drwy broses graffu drylwyr, yn arweinwyr yn eu meysydd, a chanddynt nod cyffredin i roi'n ôl i Gymru.

Mae ein tîm bach cyfeillgar ac ymroddedig o 14 aelod staff yn gyfrifol am gynnal gweithgareddau'r Gymdeithas. Byddwch yn gweithio gyda'r tîm cyfan, sydd hefyd yn creu cyfle i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau y tu hwnt i'ch cyfrifoldebau craidd, gan gael cipolwg o wahanol rannau o'r sefydliad a chyfrannu at ddiwylliant gwaith cydweithredol a chefnogol.

Ynglŷn â'r rôl

Bydd gennych brofiad amlwg o helpu i ddatblygu cyngor polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd gennych ddealltwriaeth gref o system wleidyddol Cymru, a byddwch yn deall sut y gall elusen annibynnol weithredu'n effeithiol oddi mewn i'r system honno.

Bydd gennych hefyd brofiad amlwg o gyfleu'r cyngor polisi hwn, drwy gysylltiadau â'r cyfryngau, cydlynu cyfarfodydd â gwleidyddion, a'r/neu'r cyfryngau cymdeithasol. Ar gyfer hyn, bydd angen deall sut i sicrhau bod cyngor polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cyrraedd rhanddeiliaid dylanwadol, a deall sut i fanteisio'n strategol ar y cyfryngau traddodiadol a'r cyfryngau cymdeithasol.

Byddwch yn rhugl yn y Gymraeg, a bydd gennych sgiliau llythrennedd cryf yn Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar. Mae'r Gymdeithas yn sefydliad dwyieithog a chanddi eisoes arferion cryf ar waith, a diwylliant cadarnhaol yn y gweithle o ran y Gymraeg.

Byddwch yn cael llawer o annibyniaeth a rhyddid i weithio'n greadigol wrth ddylunio a chyflawni maes gwaith sy'n esblygu o fewn y Gymdeithas. Byddwch yn aelod o dîm materion

allanol bach, a hefyd yn rhan o sefydliad bach sy'n cynnwys 14 aelod o staff. Byddwch yn adrodd i'n Pennaeth Polisi Cyhoeddus.

Gweithio i ni

Rydym yn bwriadu penodi rhywun i weithio'n rhan-amser am 28 awr yr wythnos. Rydym yn agored i drafod amrywiaeth o batrymau gwaith a byddem yn hapus i ystyried o leiaf 21 a hyd at 28 awr yr wythnos, yn dibynnu ar amgylchiadau a phrofiad yr ymgeisydd.

Cynigir y rôl ar gontract cyfnod penodol o flwyddyn i ddechrau, gyda'r bwriad o ymestyn i swydd barhaol, ar yr amod bod y naill ochr a'r llall yn cytuno ar hynny, ac yn amodol ar setliad ariannu blynyddol y Gymdeithas.

Rydym wedi ymrwymo i adeiladu Cymdeithas amrywiol a chynhwysol sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yr ydym yn ei gwasanaethu. Rydym yn estyn croeso cynnes i geisiadau gan unigolion o gefndiroedd sydd wedi'u tangynrychioli. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn dîm cefnogol a chymdeithasol, ac yn chwilio am rywun a fydd yn dod yn rhan weithredol o hyn drwy gyfrannu at gyfarfodydd tîm, cymryd rhan mewn hyfforddiant, a'n helpu i feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol.

Ffeithiau allweddol am y rôl hon

Cyflog	£33,662 - 39,559 y flwyddyn, pro rata am oriau rhan-amser. Band D (pwyntiau colofn gyflog 24–30). Rydym yn rhagweld y byddwn yn penodi ar waelod y band hwn, ond bydd modd negodi yn dibynnu ar brofiad.
Oriau	Mae'r rôl am 28 awr yr wythnos (0.8CALl). Rydym yn agored i drafod amrywiaeth o batrymau gwaith a byddem yn hapus i ystyried o leiaf 21 a hyd at 28 awr yr wythnos, yn dibynnu ar amgylchiadau a phrofiad yr ymgeisydd. Mae ein staff yn gweithio'n hyblyg; cytunir ar batrwm yr oriau â'r rheolwr llinell. Ac ystyried bod y rôl hon yn cefnogi busnes sy'n digwydd yn bennaf yn ystod y tymor, gellid ystyried patrwm o gynyddu oriau yn ystod y tymor a lleihau oriau yn ystod prif wyliau'r ysgol (nid gwyliau hanner tymor). Sylwch y bydd yn rhaid i unrhyw batrwm gwaith y cytunir arno olygu eich bod ar gael ar gyfer cyfarfodydd tîm (cyfarfodydd unwaith yr wythnos yn y cnawd, fel arfer ar ddydd Mercher). Efallai y bydd yn ofynnol i ddeiliad y swydd weithio gyda'r nos o bryd i'w gilydd. Fel arfer, rhoddir unrhyw oriau ychwanegol a weithir yn ôl ar ffurf TOIL (amser i ffwrdd am oriau ychwanegol a weithiwyd).
Lleoliad	Mae ein swyddfeydd wedi'u lleoli ym Mharc Cathays, Caerdydd. Rydym yn gweithredu polisi gweithio hybrid ac yn rhagweld y bydd deiliad y swydd yn rhannu eu gwaith rhwng y swyddfa a'r cartref (manylion i'w cytuno â'r rheolwr llinell). Ein nod yw bod mor hyblyg ag sy'n bosibl gyda staff, ond sylwch na

	fydd modd gweithio gartref drwy'r amser gan ei bod hi'n ofynnol ichi fod yn bresennol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau yn y cnawd yn rhan o'r swydd.
Rheolwr Llinell	Pennaeth Polisi Cyhoeddus
Telerau cyflogaeth	Cyfnod penodol o flwyddyn. I ddechrau cyn gynted â phosibl.
Gwyliau Blynyddol	Y lwfans gwyliau sylfaenol yw 25 diwrnod (pro rata) i'w cymryd fel y cytunir â'r rheolwr llinell, yn ychwanegol at wyliau banc. Rydym hefyd yn darparu 7 'diwrnod o wyliau arferol' ychwanegol fesul blwyddyn (pro rata), a ddarperir fel arfer i ymestyn seibiannau dros y Nadolig a'r Pasg.
Pensiwn a buddion	Gall deiliad y swydd ymuno â'n cynllun pensiwn, gyda'r cyflogwr a'r gweithiwr yn cyfrannu 5% yr un o'r cyflog gros i'r cynllun bob mis. Rydym yn darparu tâl salwch a thâl mamolaeth gwell sy'n rhagori ar yr isafswm statudol. Rydym yn darparu gwyliau blynyddol ychwanegol (gweler “gwyliau arferol” uchod) a gwyliau gwirfoddol.
Teithio	Efallai y bydd angen teithio o bryd i'w gilydd yn rhan o'r swydd. Bydd treuliau’n cael eu had-dalu. Dylai deiliad y swydd fod yn hyblyg o ran yr angen i ymweld â safleoedd/lleoliadau cyfarfod eraill.

Cyfrifoldebau

1 . Gydag arweiniad Grŵp Cynghori Cyfnewid Gwybodaeth y Gymdeithas, ac o dan oruchwyliaeth y Pennaeth Polisi Cyhoeddus, arwain gwaith i greu Mecanwaith Cyfnewid Gwybodaeth newydd y Gymdeithas, a fydd yn grymuso arbenigwyr i gefnogi gwaith llunio polisi ar sail tystiolaeth yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys:

- Cynnal digwyddiadau, gan gynnwys gweithdy cyfnewid gwybodaeth mawr ar gyfer Cymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Hwyluso cyfarfodydd rhwng amrywiaeth o Gymrodyr a llunwyr polisi
- Nodi cyfleoedd i Gyfnewid Gwybodaeth
- Cysylltu â rhanddeiliaid pwysig gan gynnwys staff y Senedd a Chymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru
- Prosesu ceisiadau er mwyn gweithio mewn partneriaeth
- Lledaenu allbwn o weithgareddau Cyfnewid Gwybodaeth.

2. Cyflawni rôl ysgrifenyddol ar gyfer Grŵp Cynghori Cyfnewid Gwybodaeth y Gymdeithas, gan gynnwys:

- Trefnu cyfarfodydd
- Cymryd cofnodion

- Bwrw ymlaen â chamau gweithredu

3. Gweithio gyda thîm cyfathrebu bach i greu cyfathrebiadau allanol strategol, gan gynnwys:

- Ymgysylltu â'r cyfryngau
- Rheoli'r cyfryngau cymdeithasol a chreu cynnwys.

4. Cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Llywydd mewn cyfarfodydd pwysig â rhanddeiliaid polisi cyhoeddus, gan gynnwys:

- Ysgrifennu briffiau strategol
- Gweithio gyda rheolwyr dyddiaduron i sicrhau bod trefniadau cyfarfodydd yn eu lle, olrhain a mynd ar drywydd camau gweithredu.

5. Gan adrodd i'r Pennaeth Polisi Cyhoeddus, gweithredu fel Swyddog y Gymraeg o fewn y Gymdeithas, gan gefnogi cydweithwyr i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog, gan gynnwys:

- Cyflawni rôl ysgrifenyddol i Grŵp Cynghori'r Gymraeg o fewn y Gymdeithas
- Cefnogi cais y Gymdeithas i'r Cynllun Cynnig Cymraeg
- Gweithredu fel prif unigolyn cyswllt ar gyfer darparwyr cyfieithu Cymdeithas Ddysgedig Cymru, gan adolygu ac addasu i sicrhau gwasanaeth proffesiynol a chost-effeithiol i'r staff.
- Prawfddarllen detholiad o ddogfennau allweddol sydd wedi'u cyfieithu'n broffesiynol
- Llunio deunyddiau cyfathrebu gwreiddiol yn y Gymraeg.
- Helpu i hwyluso amgylchedd gwaith lle bydd dysgwyr Cymraeg yn cael cyfleoedd i ymarfer.

Manyleb y Person

	Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol
Cymhwyster	Cymwysterau Safon Uwch neu gyfwerth	✔	
	Gradd neu gymhwyster cyfwerth		✔
Gwybodaeth a phrofiad	Dealltwriaeth gref o system llunio polisïau Cymru	✔	
	Profiad o ddefnyddio tystiolaeth i lywio gwaith llunio polisi	✔	
	Creu cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol (ffurfiol neu anffurfiol). *Atodwch neu gynnwys dolenni i enghreifftiau os hoffech ddangos y gallu hwn.*		✔
	Rheoli prosiectau (boed hynny drwy brofiad neu astudio)	✔	

Sgiliau, galluoedd ac agwedd	Sgiliau trefnu rhagorol.		✔	
	Blaengaredd, a pharodrwydd i symud gweithgarwch yn ei flaen.		✔	
	Y gallu i greu dogfennau proffesiynol eu gwedd (ffurfiol neu anffurfiol, gan gynnwys drwy ddefnyddio offer fel Canva). *Atodwch neu gynnwys dolenni i enghreifftiau os hoffech ddangos y gallu hwn.*			✔
	Sgiliau cyfathrebu ardderchog mewn ysgrifen ac ar lafar (gan gynnwys prawfddarllen, a'r gallu i gyfansoddi deunyddiau cyfathrebu strategol sy'n argyhoeddi)	Yn y Gymraeg	✔	
		Yn Saesneg	✔	
	Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant		✔	
	Ymrwymiad i gefnogi datblygiad y Gymdeithas fel sefydliad dwyieithog.		✔	
	Ymrwymiad i genhadaeth a nodau'r Gymdeithas a diddordeb yn hynny		✔	

Sut i ymgeisio

- Os hoffech ragor o wybodaeth cyn penderfynu ymgeisio, cysylltwch â ceisiadau@cddc.cymru.ac.uk i drefnu sgwrs anffurfiol â'r rheolwr llinell.
- I ymgeisio, **anfonwch CV a llythyr cyflwyno** i ceisiadau@cddc.cymru.ac.uk.
    - Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r dogfennau terfynol ar ffurf Word neu PDF.
    - Mae croeso ichi ysgrifennu un o'r dogfennau neu'r ddwy ddogfen yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg.
- Wrth ysgrifennu'r llythyr gofynnir ichi:
    - Esbonio **sut rydych chi'n bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol** ar Fanyleb y Person (a'r meini prawf dymunol os oes modd). Argymhellwn eich bod yn darparu tystiolaeth ac esboniad o'r modd yr ydych yn bodloni pob un o'r meini prawf yn eu trefn. Bydd defnyddio pob maen prawf fel pennawd a rhoi tystiolaeth ac esboniad o'r modd yr ydych yn bodloni pob un yn ein helpu i asesu eich cais yn rhwyddach.

- Esboniwch **pam bod gennych ddiddordeb yn y swydd hon**, y patrwm gwaith yr ydych yn ei ffafrio, ac a fyddai'n well gennych gael cyfweliad yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- **Ni ddylai** eich llythyr fod yn **hwy na chyfanswm o 2 dudalen A4**.

Sylwch **fod angen ichi ddangos inni sut y gallwch fodloni'r HOLL feini prawf hanfodol er mwyn cael eich cynnwys ar y rhestr fer.** Gallwch ddefnyddio elfennau o unrhyw agwedd ar eich bywyd, fel addysg, gwaith, y cartref neu fywyd cymunedol, ar yr amod eich bod yn canolbwyntio ar eu perthnasedd i ofynion y swydd hon.

- Anfonwch eich cais drwy e-bost i **ceisiadau@cddc.cymru.ac.uk**. Byddwn yn anfon e-bost cydnabyddiaeth at bob ymgeisydd. Cysylltwch â ni os na chewch gydnabyddiaeth ar ôl 5 niwrnod gwaith.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw **hanner nos ddydd Sul 23 Awst**.
- Mae cyfweliadau wedi'u trefnu rhwng 9am a 5pm **ar ddydd Mercher 2 a dydd Iau 3 Medi 2026**, i'w cynnal yn ein swyddfeydd (Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa Brenin Edward VII, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NS). Os nad ydych wedi cael gwahoddiad i gyfweliad o fewn pythefnos ar ôl y dyddiad cau, dylech ystyried bod eich cais yn aflwyddiannus.
- Byddwn yn cynnig y swydd yn amodol i'r ymgeisydd llwyddiannus. Byddwn wedyn yn gwirio geirdaon ac, os yw'r rhain yn foddhaol, yn cadarnhau'r cynnig swydd. Rydym yn cadw'r hawl i beidio penodi unrhyw un os byddwn o'r farn nad oes yr un o'r ymgeiswyr yn cyrraedd y safon ofynnol.
- Llenwch ein holiadur Monitro Cyfle Cyfartal yn https://www.smartsurvey.co.uk/s/B1H26X. Mae'r holiadur hwn yn ddienw, ac ni chaiff ei ystyried yn rhan o'r broses ymgeisio.